**TAG UG/Uwch**

583/51

# CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY3
## *(FIRST LANGUAGE)*
## DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH
*(Arholiad Ysgrifenedig)*

P.M. DYDD IAU, 15 Mai 2008

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn - Adran A ac Adran B.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [5 × 2 = 10]

credwn i
crëwyd
clywsai
pe bawn i
teimlo i'r byw

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [10 × 2 = 20]

(i) Clywaf fod mae'r bwyd yn dda yno neithiwr.

(ii) Gwelir y bardd lawer o'u gerddi mewn cylchgronau.

(iii) Brynais i mo'r tŷ ddoe am fod dim arian gen i.

(iv) Os bydden nhw heb roi i fyny bydden nhw wedi ennill.

(v) Roedd e'n gwrthod â mynd am eu bod wedi lledaenu storïau am ef.

*(c)* (i) Cywirwch yr ymadroddion isod. [5]

(ii) Defnyddiwch y ffurfiau cywir mewn brawddegau, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd. [5]

yn lle nhw
pynciau a fodolir ar hyn o bryd
rhag ofn mae hi
tra yn helpu ei hun
gweithio allan lle roedd yn byw

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, cofiwch*
- *ddefnyddio nifer digonol o gerddi wrth ymateb i ofynion y cwestiwn;*
- *defnyddio dyfyniadau a thermau beirniadaeth lenyddol;*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol.*

**Naill ai**

*(a)* Trafodwch **themâu'r** cerddi o waith Twm Morys a Meirion MacIntyre Huws. Cyfeiriwch yn ogystal at **arddull** y beirdd yn y cerddi hyn. [80]

**Neu**

*(b)* Trafodwch ymateb y beirdd i ryfela a'r darlun a gawn o ryfel yn eu cerddi. Dylech gyfeirio at gerddi **o leiaf ddau** o'r beirdd gan drafod eu **cynnwys a'u harddull**. [80]